Canolradd (De)

Chwarae'r Gêm - Act 9

(Nodyn i'r Tiwtor: Os dych chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y De) bydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 11.)

Mae hi'n dri o'r gloch. Mae Gwyn yn y swyddfa yn clirio'i ddesg. Mae'r gofalwr, Ogi Williams, yn dod i mewn.

Ogi: Mr Thomas? Gwyn? Ro'n i am ddweud, ar ran y bechgyn…..

Gwyn: Hwyl fawr?

Ogi: Wel…hwyl fawr…a diolch….Fydd Caerddinas ddim yr un peth…

Gwyn: Diolch, Ogi. Brandi bach?

Ogi: Wel. Mae hi'n gynnar ond…..Pam lai? (*Mae e'n gweld ffotograffau ar y ddesg*) Merch bert.

Gwyn: Lisa..y ferch. Gaeth hi ei geni pan o'n i'n chwarae i Chelsea.

Ogi: Ond mae hi'n siarad Cymraeg.

Gwyn: Ydy, wrth gwrs. Roedd Megan yn benderfynol. Gaeth Lisa ei hanfon i fyw ar fferm y teulu yng Nghaerfyrddin pan oedd hi'n chwech oed! Mae hi'n briod nawr ac mae'r plant yn mynd i Ysgol Gymraeg Caerddinas.

Ogi: A'r mab?

Gwyn: O! Gaeth e ei eni yma yng Nghaerddinas. Mae llond ceg o Gymraeg gyda fe.

Ogi: Beth wnewch chi nawr?

Gwyn: Wel...bydd y mab yn mynd i'r coleg eleni. Mae'n bosib y bydd Megan a fi'n symud yn ôl i Gaerfyrddin. Mae'n hen ffermdy diddorol. Gaeth e ei godi ym mil saith naw chwech ac…….

Mae Megan a Larry yn rhuthro trwy'r drws.

Larry: Gwyn! Mae Medwin Hughes, y goli, wedi dweud popeth wrth yr heddlu.

Gwyn: Beth?

Larry: Tipyn o berswad gan Megan yma! Roedd hi'n wych!

Gwyn: Da iawn, Columbo! Ydy'r Cadeirydd yn gwybod?

Larry: Dim eto.

Gwyn: Ffonia i fe nawr.

Larry: Syniad da! Dw i'n mynd i ddechrau ysgrifennu'r stori!

Geirfa

Ar ran y bechgyn – on behalf of the boys

Ffermdy – a farmhouse

Llond ceg – a mouthful

Penderfynol - determined